RHIFYN
EDITION
65

Llais Llantrisant

31.01.25

CYFRIF INSTAGRAM
INSTAGRAM ACCOUNT

O 01.03.25, ni fydd yr ysgol yn defnyddio X (Twitter) rhagor. Os hoffech ymuno â ni ar Instagram, chwiliwch am @YGGGLlantrisant.
From 01.03.25, school will no longer post on X (Twitter). Should you wish to join us on Instagram, search for @YGGGLlantrisant.

DIOGELU
SAFEGUARDING

Os hoffech ddarllen mwy am weithdrefnau Diogelu'r ysgol ac i ddod yn gyfarwydd â Swyddogion Diogelu'r ysgol, bwrwch olwg dros y dudalen hon ar wefan yr ysgol.
If you'd like to read more about the school's Safeguarding processes and to make yourself aware of the School's Safeguarding Officers, take a look at this page on the school website.

Y SIARTER IAITH
THE WELSH LANGUAGE CHARTER



Fel y gwyddoch, mae'r plant a'r staff yn gweithio'n galed iawn tuag at ennill gwobr aur Y Siarter Iaith eleni. Mae angen eich help chi ar y plant! Darllenwch y llythyr hwn a anfonwyd atoch yn ddiweddar i ddysgu mwy am sut y gallwch ein helpu ni!
As you will be aware, the children and staff are working hard at the moment to gain the Welsh Language Charter gold award this year. The children need your help! Read this letter which was sent out recently to find out how you can help us!



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

21.02.25 - Plant yn gorffen - gwyliau Hanner Tymor
Children break up - Half Term break
07.04.25 - Cyfarfod Cynnydd #1 / *Progress Meeting #1*
08.04.25 - Cyfarfod Cynnydd #2 / *Progress Meeting #2*
11.04.25- Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Pasg
Children finish for the Easter break
28.04.25 - HMS
INSET
29.04.25 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Haf
Children return - Summer Term

EISTEDDFODAU ELENI
THIS YEAR'S EISTEDDFODAU

Eisteddfod Eisteddfod

Fel y gwyddoch, tymor yr Eisteddfodau yw Tymor y Gwanwyn yn yr ysgol. Bydd nifer fawr o blant yn cael y cyfle i gystadlu yn ein Heisteddfodau Ysgol eleni gyda'r cyfle i symud ymlaen i'r Eisteddfod Gylch, Yr Eisteddfod Sir ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Os hoffech ddysgu mwy am yr Eisteddfod, bwrwch olwg dros y dudalen hon ar wefan yr ysgol.
As you might know, the Spring Term is the Eisteddfodau term at school. A number of children will have the opportunity to compete in our School Eisteddfodau this year with the chance of moving on to the District Eisteddfod, the County Eisteddfod and the Urdd National Eisteddfod in Margam during the Whitsun holiday. Should you wish to learn more about the Eisteddfod, take a look at this page on the school website.

DIWRNOD COCH, GWYN A GWYRDD YR URDD
THE URDD'S RED, WHITE AND GREEN DAY

Cafodd y plant lawer o hwyl a sbri yn nisgo distaw Mistar Urdd yn yr ysgol ar 23.01.25. Diolch i Llio o'r Urdd am drefnu'r ymweliad a da iawn i bawb am ymuno yn yr hwyl a sbri trwy wisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd. Rhagor o luniau fan hyn.
The children had a lot of fun at Mistar Urdd's silent disco at the school on 23.01.25. Thanks to Llio from the Urdd for organising the visit and well done to everyone for joining in the fun and excitement by wearing red, white and green clothes. More pictures here.










Dilynwch ni ar / *Follow us on:* @YGGGLlantrisant

CINIAWAU YSGOL
SCHOOL MEALS

Erbyn hyn, mae hawl gan bob plentyn llawn amser, 3 mlwydd oed i 11 mlwydd oed yn yr ysgol gynradd, yng Nghymru gael cinio ysgol am ddim (UPFSM).

Cofiwch, os ydych chi'n credu eich bod yn deilwng i hawlio ciniawau ysgol am ddim ta beth (FSM) gwnewch gais os gwelwch yn dda gan fod yr ysgol yn gallu derbyn grantiau ychwanegol i'r cyllid ac mae pob ceiniog yn cyfri y dyddiau hyn! Nid yw hyn yn effeithio ar statws UPFSM unrhyw blentyn llawn amser 3 mlwydd oed a hŷn.

Os bydd eich plentyn yn absennol peth cyntaf rhyw fore oherwydd apwyntiad meddygol, er enghraifft, gofynnir yn garedig i chi ebostio'r athrawon dosbarth cyn 9:00 y.b. gyda dewis bwyd eich plentyn y diwrnod hwnnw, os gwelwch yn dda.

By now, all full-time children, aged 3 to 11 years old in primary school, in Wales are entitled to a free school lunch (UPFSM).

Remember, if you believe you are eligible to claim free school lunches (FSM) please apply as the school can receive additional grants for the school budget and every penny counts these days! This does not affect the UPFSM status of any full-time child aged 3 years and over.

Should your child be absent first thing in the morning for a medical appointment, for example, you are kindly asked to email the class teacher before 9:00 a.m. with their choice of food for that day, please.

PRYDLONDEB
PUNCTUALITY

Hoffem atgoffa pawb fod yr ysgol yn dechrau i'r plant am 9:00 yb yn brydlon. Agorir clwydi'r ysgol am 8:50 yb er mwyn i'r plant gyrraedd, ymgartrefu yn y dosbarth a pharatoi eu hunain am ddiwrnod o waith caled! Gall cyrraedd yr ysgol yn hwyr wneud i blant deimlo'n bryderus a rhoi dechreuad ansefydlog i'r diwrnod ysgol iddynt.

We should like to remind everyone that school starts for the pupils at 9:00 am promptly. The school gates are opened at 8:50 am for the children to arrive, settle down in class and prepare themselves for the hard day's work ahead of them! Arriving at school late can cause children to feel anxious and result in an unsettled beginning to the school day.

LLWYDDIANNAU
SUCCESSES

Llongyfarchiadau mawr i'r plant isod ar eu llwyddiannau diweddar. Cofiwch roi gwybod i ni os hoffech i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn rhifyn o 'Llais Llantrisant' yn y dyfodol.

Many congratulations to the children below on their recent successes. Remember to let us know if you'd like your child to be included in a future edition of 'Llais Llantrisant'.










YMWELIAD BLWYDYDN 5 Â SENEDD CYMRU A TECHNIQUEST
YEAR 5'S VISIT TO THE WELSH PARLIAMENT AND TECHNIQUEST

Ymweliad hynod ddiddorol â Bae Caerdydd i blant Blwyddyn 5 ar 29.01.25. Yn ystod y bore, cafodd y plant gyfle i gael taith o gwmpas Senedd Cymru i ddysgu mwy am yr adeilad, gweld y siambr a dysgu am y mathau o bethau sy'n cael eu trafod a'u penderfynu gan y Senedd. Yna, cerddodd y plant draw i 'Techniquest' i gael gweithdy cyffrous am DNA yn y labordy ac yna cyfle i brofi rhai o'r gweithgareddau gwyddoniaeth a thechnoleg hwyliog o gwmpas yr adeilad.

A fascinating visit to Cardiff Bay for Year 5 children on 29.01.25. During the morning, the children had the opportunity to have a tour around the Welsh Parliament to learn more about the building, see the chamber and learn about the types of matters that are discussed and decided upon by the Senedd. The children then walked over to 'Techniquest' to take part in an exciting DNA workshop in the laboratory and then a chance to experience some of the fun science and technology activities around the building.







MYFYRWYR
STUDENTS

Hoffem estyn croeso cynnes i dri myfyriwr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd atom y tymor hwn i weithio gyda'r plant.
Bydd Mr S Jones yn gweithio gyda phlant Dosbarth 3, Miss N Picton gyda phlant Dosbarth 4 a Miss Ff Jones gyda phlant Dosbarth 5.
Gobeithio y bydd y tri yn hapus iawn yn yr ysgol ac edrychwn ymlaen at weld ffrwyth eu gwaith caled.
We should like to extend a warm welcome to three students from Cardiff Metropolitan University to school this term to work with the children.
Mr S Jones will work with Class 3 children, Miss N Picton with Class 4 children and Miss Ff Jones with the children of Class 5.
Hopefully all three will be very happy at school and we look forward to seeing the fruits of their hard work.



Miss Jones, Miss Picton & Mr Jones

GWEFAN YR YSGOL
THE SCHOOL WEBSITE

Os hoffech chi weld lluniau a newyddion yr ysgol, cofiwch ymweld â'r dudalen NEWYDDION ac ORIEL o dan RHIENI A GOFALWYR ar wefan yr ysgol.
If you'd like to catch up on some photographs and school news, remember to visit NEWS and GALLERY under the PARENTS AND CARERS dropdown on the school website.

LLYWODRAETHWYR
GOVERNORS

Hoffem groesawu Mrs Lisa Lewis atom fel Rhiant Lywodraethwr newydd.
Mae'r Bwrdd Llywodraethu yn edrych ymlaen at gydweithio gyda Mrs Lewis.
We should like to welcome Mrs Lisa Lewis to the Governing Body as our new Parent Governor.
The Governing Body look forward to working with Mrs Lewis.

GWEITHDAI STEM
STEM WORKSHOPS

Diolch yn fawr i'r GrhA am ariannu'r gweithdai STEM yn yr ysgol yn ddiweddar. Diolch i Mrs Jenkins, daeth Cerian o'r cwmni 'Gweld Gwyddoniaeth' i gynnal dau ddiwrnod o weithgareddau gwyddoniaeth a thechnoleg gyda'r plant. Dau ddiwrnod llawn her a hwyl!
Thanks to the PTA for funding the recent STEM workshops at school. Thanks to Mrs Jenkins, Cerian from the company 'See Science' came along to school to hold two full days of science and thechnology based workshops with the children. Two days full of challenge and fun!



Y CWIS DIM CLEM!
THE NO IDEA QUIZ!



Da iawn i'r tîm o blant Blwyddyn 6 am gystadlu yn y 'Cwis Dim Clem!' a drefnwyd gan Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. Doedd dim gwaith paratoi ymlaen llaw, dim ond gwybodaeth gyffredinol dda oedd ei hangen ac ychydig o synnwyr cyffredin! Ar ôl eu llwyddiant yn y rownd gyntaf yn erbyn Ysgol Llanhari ac Ysgol Dolau ar 29.01.25, ymlaen â'r tîm i'r rownd nesaf ar 17.02.25. Pob lwc!
Well done to our team of Year 6 children who recently competed in the 'No Idea Quiz!' which was arranged by Menter Iaith Rhondda Cynon Taf. No preparation was needed beforehand just a good general knowledge and some common sense! Having won against Ysgol Llanhari and Ysgol Dolau in the initial round on 29.01.25, on the team goes to the next round on 17.02.25. Good luck!